



Ein cyf/Our ref MA-LG-3776-21

Huw Irranca-Davies AS,  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,  
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

24 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

### **Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir).

Rwyf wedi nodi fy ymateb i ddau argymhelliad y Pwyllgor isod:

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog, cyn gynted ag y bodd a chyn y ddadl yn y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, ddarparu diweddariad i'r Pwyllgor ar y trafodaethau a gafwyd â Llywodraeth y DU am yr eithriad angenrheidiol rhag y cyfyngiadau perthnasol yn Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Ymateb:** Yn dilyn trafodaethau â Llywodraeth y DU, cadarnhaodd Defra ei gytundeb i wneud addasiadau i'r trefniadau caniatáu. Mae gwelliannau'r Llywodraeth i'r Bil wedi'u cyflwyno sy'n cynnwys darparu eithriad rhag yr angen am ganiatâd gan Weinidog y Goron yn y dyfodol mewn perthynas â'r trefniadau caniatáu yn Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog, cyn gynted ag y bodd a chyn y ddadl yn y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, ddarparu rhagor o fanylion i'r Pwyllgor ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o gymal 46 ac o ystyried bwriad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r pwerau yn y cymal i wneud rheoliadau at ddiben bodloni rhwymedigaethau Sefydliad Masnach y Byd; cadarnhewch p'un a oedd y Gweinidog yn ymwybodol o gynigion Llywodraeth y DU o ran hyn ac a yw'r Gweinidog yn cefnogi'r dull gweithredu hwn.

**Ymateb:** Mae fy swyddogion wedi trafod hyn â Defra ac rwy'n fodlon â'r dull gweithredu arfaethedig. Bydd y mesurau yng nghymal 46 yn effeithio'n bennaf ar fasnachu cŵn bach yn anghyfreithlon. Mae'n bosibl y bydd effeithiau ehangach ar fasnachu anifeiliaid anwes yn gyfreithlon oherwydd gallai'r mesurau hyn o bosibl fod yn gymwys i'r broses o fewnforio cŵn yn fasnachol. Fodd bynnag, caiff cynigion i gyflwyno mesurau mewn rheoliadau yn y dyfodol eu hystyried yn fanylach ar y cam hwnnw. Byddai angen ystyried asesiad effaith, a fyddai'n cynnwys arfarniad o unrhyw oblygiadau Sefydliad Masnach y Byd, o ran y cynigion a fanylir a chynhelir hyn ar lefel y DU cyn cyflwyno unrhyw gyfyngiadau drwy reoliadau. Yn ogystal, byddai cynigion mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth yn destun ymgynghoriad a/neu ymgynghoriad pellach â rhanddeiliaid cyn cael eu cyflwyno.

Hyderaf fod yr uchod o gymorth i chi.

Cofion,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**  
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**